Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad i'r wasg

17 Mehefin 2008

Mae angen cyfleoedd dysgu gwell i droseddwyr ifanc

Mae Estyn yn adrodd heddiw bod angen i awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau addysg, hyfforddiant neu waith amser llawn i blant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid.

Mae ffigurau'n dangos, rhwng Ebrill 2006 a Mawrth 2007, mai dim ond 59% o droseddwyr ifanc yng Nghymru a oedd mewn addysg, hyfforddiant neu waith amser llawn. Mae hyn yn is o lawer na'r targed o 90% a osodwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i Dimau Troseddau Ieuenctid (TTIau), sef y cyrff amlasiantaeth sy'n helpu i atal troseddau ieuenctid. Nid oes gan nifer o fyrddau TTIau gynlluniau i wella'r lefel hon o berfformiad chwaith.

Dywed Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, "Mae nifer o blant a phobl ifanc sy'n troseddu dan anfantais fawr. Efallai bod ganddynt anghenion cymhleth, gan gynnwys hanes o gamddefnyddio sylweddau, anghenion iechyd meddwl a chefndir teulu amharedig. Mewn arolwg diweddar yng Nghymru a Lloegr[1], roedd 40% o bobl ifanc yn y ddalfa o'r farn bod eu profiad yn yr ysgol yn 'ofnadwy'".

"Mae eu profiad o addysg yn gadael rhai troseddwyr ifanc yn teimlo'n rhwystredig ac yn flin oherwydd bod rhaid iddynt astudio pynciau y maent yn eu cael yn rhy anodd eu deall. Yn y Timau Troseddau Ieuenctid gorau, mae'r gweithwyr yn ystyried

[1] Gwella llythrennedd a rhifedd pobl ifanc wedi dadrithio yn y ddalfa ac yn y gymuned – adroddiad interim cryno o'r 18 mis cyntaf o'r astudiaeth, Canolfan Ymchwil a Datblygu Cenedlaethol 2005.

gwerthoedd a diwylliant plant a phobl ifanc i'w helpu i gynllunio i fodloni eu hanghenion."

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am y Tîm Troseddau Ieuenctid yn eu hardal, ond canfu arolygwyr nad yw awdurdodau bob amser yn cael eu cynrychioli ar fwrdd rheoli'r TTI gan rywun sy'n gallu gwneud penderfyniadau am adnoddau na mynd ag argymhellion i'r pwyllgorau priodol. Mae hyn yn golygu nad yw'r ddarpariaeth addysg i droseddwyr ifanc yn yr ardal yn cael ei darparu'n strategol na'i datblygu'n effeithiol bob amser.

Mae rhan fwyaf yr awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd sicrhau y cynigir 25 awr o addysg yr wythnos i droseddwyr ifanc, yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae ysgolion yn aml yn anfodlon cynnig lleoedd i blant a phobl ifanc sydd wedi'u gwahardd, wedi troseddu ac/neu sydd wedi bod yn y ddalfa.

Er gwaethaf yr anawsterau hyn, mae sawl awdurdod lleol yn sicrhau bod y ddarpariaeth i blant a waharddwyd yn arwain at achrediad priodol. Mae'r plant a'r bobl ifanc a oruchwylir gan y TTI nad oes ganddynt leoedd amser llawn mewn ysgol yn cael pecynnau addysg eraill sy'n eu herio ac sy'n gallu helpu i gynyddu eu hunan-barch.

Mae adroddiad Estyn yn rhoi enghreifftiau o brosiectau gwasanaethau ieuenctid sy'n llwyddo i fodloni anghenion dysgu plant a phobl ifanc sy'n troseddu. Mae prosiectau Timau Troseddau Ieuenctid sy'n dangos cymorth da gan awdurdodau lleol ledled Cymru'n cynnwys:

- prosiect y cyfryngau sy'n helpu pobl ifanc risg uchel i ennill cymwysterau achrededig a datblygu medrau trwy wneud ffilmiau a rhaglenni a'u darlledu dros y rhyngrwyd;
- defnyddio drama i efelychu sefyllfa yn ystafell y llys i helpu pobl ifanc i ddeall cost bersonol troseddu yn well; a
- phrosiect lle mae pobl ifanc yn paratoi ac yn recordio caneuon 'rap' cerddorol i ddysgu am beryglon a chanlyniadau llosgi bwriadol a'i drafod.

DIWEDD

Nodiadau i olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn darparu gwasanaethau arolygu a chyngor o safon uchel.

- Comisiynwyd adroddiad Estyn, 'Bodloni anghenion plant a phobl ifanc sy'n troseddu' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Mae sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn seiliedig ar:

    - ganlyniadau arolygiadau a chanfyddiadau ymchwil ac arolygon cyhoeddedig;
    - yr ymatebion i holiaduron yr anfonodd Estyn at bob TTI ac awdurdod lleol yng Nghymru; a
    - Chynllun Addysg Unigol awdurdodau lleol a Chynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid TTIau.

- Mae TTIau yn gyrff amlasiantaeth sy'n cael eu hariannu neu eu staffio gan y partneriaid statudol canlynol:
    - y gwasanaeth heddlu;
    - y gwasanaeth prawf;
    - gwasanaethau cymdeithasol;
    - gwasanaethau addysg awdurdod lleol; a'r
    - gwasanaeth iechyd.

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion ac unedau meithrin a gynhelir gan awdurdodau lleol neu sy'n cael eu hariannu ganddynt, ysgolion cynradd, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, y system cyfiawnder ieuenctid, awdurdodau addysg lleol (AALlau), addysg a hyfforddiant i athrawon, dysgu yn y gwaith, cwmnïau Gyrfa Cymru ac elfennau addysgu, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni'r Ganolfan Byd Gwaith.

- Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Gina Carrington
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464